# DINESYDD

**PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH**

**RHIF 125** **MAI 1986**


# GWIRION BOST!

Bu'r Swyddfa Bost o dan lach caredigion yr iaith Gymraeg yng Nghaerdydd yn ddiweddar oherwydd ei hamharodrwydd i sicrhau bod gwasanaeth Cymraeg ar gael ym mhrif swyddfa Caerdydd ar gyfer y rhai hynny sy'n dymuno cael gwasanaeth o'r fath. Dadl y Swyddfa Bost yw na byddai hi'n gyfreithlon i hysbysebu ar gyfer swydd, gan wneud y gallu i siarad Cymraeg yn gymwyster angenrheidiol ar gyfer y swydd. Mae lle i amau'n pa mor drwyadl yw dadl gyfreithiol y Swyddfa Bost, ond, pa mor annilys bynnag y bo hi, mae'r ffaith fod awdurdodau cyhoeddus yn ofni hysbysebu yn y fath fodd yn dangos yr angen am ddeddfwriaeth i amddiffyn hawliau ieithyddol Cymry Cymraeg wrth iddynt ymwneud â sefydliadau cyhoeddus, ac mae angen hynny ar fyrder, nid ymhen deng mlynedd.

Testun croeso fodd bynnag yw datganiad diweddar a ddaeth oddi wrth Rheolwr Cysylltiadau Diwydiannol Bwrdd Post Cymru fod y Swyddfa Bost, wrth baratoi rhaglen stampiau arbennig ar gyfer 1988 yn ystyried cynnwys stamp arbennig i ddathlu pedwar can mlwyddiant cyfieithiad yr Esgob William Morgan o'r Beibl. Cadarnhawyd hyn mewn ateb i gais a wnaed gan Mr. Dafydd Elis Thomas A.S. i'r Bwrdd Post, ac mae Mr. Thomas wedi annog sefydliadau cyhoeddus a mudiadu yng Nghymru i gefnogi'r cais drwy ohebu a'r Swyddfa Bost.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gynnwys stamp ar thema gwasanaeth y Plygain mewn cyfres o stampiau Nadolig.

Mae hyn oll i'w groesawu, o gofio i'r Swyddfa Bost wrthod cyhoeddi stamp i ddathlu Testament Newydd William Salesbury.

Testun siom, fodd bynnag, yw'r ffaith nad yw'r Swyddfa Bost yn gallu gweld ei ffordd yn glir i ddatgan yn awr y bydd stamp ar gael i ddathlu'r pedwar can mlwyddiant. 'Cynlluniau' yn unig sy'n bod ar hyn o bryd. Mae hi fel pe bai'r Swyddfa Bost yn gorfod chwilio am ryw gyfres Brydain - eang o nodweddion, fel y gellir cynnwys y dathliad hwn yn un o ryw gyfres fondigrybwyll. Maent fel nad ydynt yn gallu cydnabod bod i'r achlysur werth ynddi ei hun. Nid peth newydd yw hyn wrth gwrs. Roedd y stampiau a gofnododd wyth gan mlwyddiant yr Eisteddfod yn rhan o gyfres ar wyliau Prydeinig. Mae calon dyn yn torri wrth ddychmygu pa gyfres y bydd stamp Esgob Morgan yn rhan ohoni ai 'Great British Bishops' neu 'Ecclesiastical Oddities' neu hyd yn oed 'Heroes of Songs About Sheep'?

Ffactor arall sy'n ennyn pryder yw'r adroddiad diweddar yn y 'Western Mail' ynglyn â pholisi'r Swyddfa Bost wrth benderfynu p'un ai a ddylid defnyddio'r Gymraeg ar stampiau ai peidio. Mae'n debyg mai'r polisi diweddaraf yw na fydd y Gymraeg ym cael ei defnyddio, onibai nad oes modd cyfieithu'r cysyniad Cymraeg i'r Saesneg. Yn sgîl hynny, gellir defnyddio geiriau fel 'Eisteddfod' neu 'Plygain', ond nid geiriau eraill, megis Beibl, Cyfieithu ac Y Gymraeg. Tybed felly ai eironi olaf y saga ynglyn a stamp cyfieithydd y Beibl i'r Gymraeg fydd absenoldeb llwyr yr iaith honno o'i stamp?




Stamp answyddogol a gyhoeddwyd i goffau cyfieithu'r Testament Newydd gan William Salesbury.

## COLLI'R POST

Mae lle i amau doethineb gweinyddol y Swyddfa Bost yn Ne Cymru mewn meysydd eraill heblaw ei hagwedd tuag at yr iaith. Mae'r modd y mae'r streic diweddar wedi lledaenu o Gaerdydd, pan ymddangosai fod y gweithwyr ar fin dychwelyd i'w gwaith wedi dangos hynny. Mae hefyd wedi dangos pa mor ddibynol yr ydym oll ar gael gwasanaeth post effeithlon a phrydlon. Dioddefodd y Dinesydd i'r graddau na chyrhaeddodd erthygl oddiwrth un o gyfarwyddwyr Cwmni Sain, yn egluro safbwynt y cwmni hwnnw ynglynâ ffeilio cyfrifon uniaith Gymraeg yn Nhy'r Cwmniau yn y Maendy, ond gobeithir cynnwys eitem y mis nesaf.

# COFI-O?

Yn ôl un o lenorion amlycaf Cymru, nid yw'r Dinesydd yn bod bellach. Y mae y papur sydd yn awr o flaen eich llygaid yn rhith, a allasai ddiflannu'n gynt na choctel ar set 'Dinas'. A'r hen Goronwy Jones yna sydd ar fai. Ydych chi'n cofio Goronwy Jones? Ef oedd yr un a ymroes i'r dasg Herciwleaidd honno o ddehongli bywyd y Bourgeoisie Cymreig mewn modd a fyddai'n ddealladwy i bobl cyffredin. Ef oedd awdur y llyfr a werthodd yn well hyd yn oed na chyfrol Talwrn y Beirdd, sef 'Dyddiadur y Dyn Dwad'.

Ond beth, meddech chi yw ystyr hyn oll? Ydi Gron wedi blynyddoedd o gynllunio tanddaearol, o'r diwedd wedi llwyddo i ddymchwel yr organ a fu'n gyfrwng mynegiant iddo yn ystod ei orchwyl fawr?

Ydi, yn ôl Y Prifardd T. Glynne Davies, a dylai e' wybod, mae ei deulu i gyd yn darllen y Newyddion. Dyma eiriau'r Prifardd mewn erthygl ddiweddar yn y cylchgrawn llengar hwnnw 'Radio Times':

"Dychmygol yw'r cymeriad Goronwy Jones ('Gron' i'w ffrindiau) sydd yn colli ei waith mewn ffatri yng Nghaernarfon ac yn symud, dan gynllun y llywodraeth ym 1976 i weithio i gwmni mawr yng Nghaerdydd. Ond nid ffug o gwbl yr atgasedd dychanol a geir yn y dyddiadur. Fe'i cyhoeddwyd gyntaf fesul mis ym mhapur bro Caerdydd, Y Dinesydd,nes cythruddo llawer o Gymry blaenllaw y ddinas. Yn wir, y mae'n debyg mai'r helynt ynglyn âchynnwys ac agweddau'r dyddiadur a achosodd dranc y papur hwnnw yn y diwedd, hynny'n cynnwys penderfyniad un o'r capeli i beidio â'i werthu"

Diddorol sylwi bod y capeli wedi bod yn gwerthu Y Dinesydd. I b'le'r aeth yr arian? Dyma glasur arall o ffuglen Gymraeg gan awdur y nofel swmpus honno, 'Marged'.

Ond mae un peth yn wir, Mae Gron ar y radio, am bum munud ar hugain i un bob Dydd Iau. Oherwydd ei swildod cynhenid, nid yw Gron ei hun wedi cytuno darllen ei waith, felly mae'r actor John Pierce Jones wedi dod i'r fei i'w ddarllen drosto.




## TU MEWN


| | |
|---|---|
| HWYL GLA'ME | 3 |
| YN Y CLWB | 5 |
| NIWEIDIO'R TREFNYDD | 7 |
| CHICAGO | 8 |
| DEWCH I CHWARAE RYGBI | 10 |
| CROESAIR | 11 |

# GOLYGYDDOL

Siom i nifer fawr o bobl oedd methu â chael mynediad i weld cynhyrchiad Cwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd o 'Chicago.' (Gweler yr adolygiad ar dudalen 8) Y rheswm dros hyn oedd bod gweinyddwyr Theatr y Sherman wedi penderfynu mai peth doeth byddai neilltuo yr Arena fechan ar gyfer y perfformiad, yn hytrach na'r brif Awditoriwm. Efallai eu bod yn ystyried na fyddai galw am docynnau i ddrama o'r fath gan mai un Gymraeg ydoedd. Os felly, roeddynt yn gwneud camgymeriad. Mae perfformiadau'r cwmni yma wedi bod yn gyson boblogaidd ar hyd y blynyddoedd, gyda chast gwahanol bob blwyddyn a'r gweithiau gwreiddiol yn chwistrellu ynni newydd i wythiennau drama yng Nghymru. Pwy a wyr nad ffresni y cwmni hwn sydd wedi dod â chymaint o fywiogrwydd iachus i'r olygfa theatrig heddiw.
Mae yna arlwy cyson o waith newydd a difyr yn dod i lwyfannau Caerdydd, ac mae'r arwyddion fel pe baent yn dangos bod y gynulleidfa ar gyfer dramâu yn y Gymraeg, yn enwedig dramâu modern, yn cynyddu. Dichon bod lle i ddadlau mai cynulleidfa leiafrifol yw hi, hyd yn oed ymysg y Cymry Cymraeg, ond os ydym yn dadlau o'r safbwynt hwnnw, rhaid i ni beidio â syrthio i'r fagl o dderbyn yn ffatalistaidd nad oes modd cynyddu'r gynulleidfa. Os gwnawn hynny, byddwn yn cwympo i'r safle b'le mae'r rhai hynny, nad ydynt efallai yn gwerthfawrogi y Theatr Gymraeg na'i photensial, ond sydd eto'n gweinyddu theatrau, yn ystyried eu bod yn gallu gwneud pethau fel alltudio 'Chicago' i Theatr yr Arena, heb bryderu am y canlyniadau.
Efallai mai camgymryd natur y perfformiad a'r galw amdano wnaeth gweinyddwyr Theatr y Sherman, os felly, edrychwn ymlaen at gael gweld perfformiad nesaf y Cwmni ifanc yma ar lwyfan sy'n deilwng ohono.

---

MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN
MÂN HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION
HYSBYSEBION MÂN HYSBYSEBION MÂN

OS HOFFECH hysbysebu yn y golofn hon anfonwch eich hysbyseb atom cyn gynted â phosibl. £1 y linell.

YN EISIAU:
Cofiannau Thomas Gee neu Emrys ap Iwan gan T.Gwynn Jones. Ffoniwch: 752755

AR WERTH:
Dau garped Oriental gwlan pur wedi'u gwneud â llaw.
Caerdydd 564853

AR WERTH:
Gwely sengl. Pen a throed o dderw. Matras sbring a chwrlid gwyn. £25. Y prynwr i'w 'nôl. Caerdydd 756882.

AR WERTH:
"Ac Onide" - J.R.Jones. Llyfrau'r Dryw, 1970. £7.50. Caerdydd 553523.

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at rifyn Ebrill at: Shan Emlyn, 3 Llandennis Avenue, Cyncoed, Caerdydd, CF5 6JD erbyn MAI 15.

DIOLCH AM gymorth Cymdeithas Celfyddydau De Ddwyrain Cymru a'r Swyddfa Gymreig wrth baratoi'r Dinesydd.

# Y CALENDR

DYLID ANFON unrhyw gyfraniadau at Galendr y Dinesydd at: Lynn Jones, 30 Highfields, Llandaf, CF5 2QB. Ffon: 562816.

MAI

1 - Clwb Ifor Bach
Parti Dysgwyr De Mrgannwg

2 - Clwb Ifor Bach
Maracca & grwp lleol

3 - Clwb Ifor Bach
Pryd Mae Te + Cythraul Canu

2-5 Plas Tan-y-Bwlch
Cwrs Cerdded y Mynyddoedd i ddysgwyr Cymraeg.

5-16 Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Pythefnos yr Ardd.
Gwerthu planhigion o dy y Dr. Don Anderson.

9 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
Ocsiwn yn Nhrewliter Fawr.

- Clwb Ifor Bach
Sioe Roc Theatrig
Plant Hywel Ffiaidd

10 - Clwb Ifor Bach
Nos dan ofal Cymdeithas yr Iaith a'r Mudiad Gwrth-Aparteid

10 - Y Twr Trafoli
Taith Gerdded noddedig
Manylion gan Meinir (752522) neu Sian (26958)

12 - Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
"Gallu a Gwirionedd" sgwrs gan Kynric Lewis QC
Clwb Ifor Bach 8.00

14 - Clwb Ifor Bach
Noson lawnsio Ymgyrch Senedd i Gymru - Dafydd Ellis Thomas A.S.
- Hywel Teifi Edwards
- Adloniant gan Huw Chiswell
- bwffe

16 - Clwb Ifor Bach
Penwythnos y Gemau Saith Bob Ochr Rhyngwladol: Tocyn penwythnos rhatach ar gael
Yr Hwntws

17 - Clwb Ifor Bach
Y Ficer

19 - Clwb Ifor Bach
Seminar Cymdeithas yr Iaith

21 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Cyfarfod Blynyddol

- Clwb Ifor Bach
John Grindell a'r grwp

22 - Cymdeithas Gymraeg Bro Radur
Crwydro'r Fro.

24 - Clwb Ifor Bach
Cyrff

30 - Clwb Ifor Bach
Mabsant

31 - Clwb Ifor Bach
Y Symudiad

MEHEFIN

6 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

7 - Clwb Ifor Bach
Maffia

14 - Clwb Ifor Bach
Meic Stephens

25 - Cylch Cinio Cymraeg y Barri a'r Fro
Siaradwr: Dafydd Islwyn

28 - Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf
Ffair Haf

---

WALES S4C CYMRU
Sianel Pedwar Cymru

**PEIRIANWYR**

Yn sgil y cynnydd mewn oriau darlledu yn ogystal â dyrchafiadau mewnol, mae gan S4C swyddi gwag yn yr adran Beirianng ar gyfer Peiriannwyr Adolygu, Uwch Beiriannwyr a Pheiriannwyr. Gweithio yn ôl trefn Shifftiau a wneir mewn rhai swyddi, gweithio yn ôl trefn diwrnod a wneir yn y lleill. Telerau ACTT yn gymwys. Mae'r cyflogau'n amrywio o £16,501 - £19,451, £12,697 - £15,000, £7,901 - £10,523.
Sianel Pedwar Cymru yw'r bedwaredd sianel deledu yng Nghymru, ac mae'n gweithio o'i chanolfan deledu yng Nghaerdydd. Oddi yno, fe ddarlledir bron pob rhaglen ar dap fideo 1". Mae'r cyfleusterau trosglwyddo ffilmiau a golygu trwy gyfrifiadur yn uned ôl - gynhyrchu ar wahan.
Darperir y rhaglenni Cymraeg ar gyfer S4C gan BBC Cymru a HTV Cymru a'r sector annibynnol. Daw gweddill y rhaglenni, sef tua deuparth y gwasanaeth o gynnyrch Channel 4.
Mae'r adran yn chwilio am staff newydd i helpu i weithio a chynnal ei chyfleusterau technegol cynyddol. Byddai profiad perthnasol yn gaffaeliad, a hefyd brwdfrydedd ynghylch yr amrywiol agweddau gweithredol ar ddarlledu gwasanaeth teledu. Bydd angen i'r ymgeiswyr llwyddiannus ddangos eu bod yn gwbl gyfarwydd ag egwyddorion peirianneg gyfathrebu electronig.
Nodwch ba swydd yr hoffech gael eich ystyried ar ei chyfer. Gellir cael ffurflen cais oddi wrth

Mrs. Mair Owen,
Swyddog Gweithredol a Phersonnel
S4C,
Clos Sophia,
CAERDYDD
CT1 9XY
(Ffôn 0222/43421)

---

NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION
ION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDDION NEWYDI

AR GOLL: Aelod o fwrdd golygyddol y Dinesydd. Chwe troedfedd o daldra, traed mawr, pen bach, dillad Lacoste, sbectol dywyll, cyfeiligar. Gwelwyd ddiwethaf yn gadael y wlad gyda'i fat criced am gyfeiriad y Caribian.

AR GOLL: TIM PEL - DROED
Mae'r rhai ohonoch sy'n dilyn yn eiddgar hynt a helynt Clwb Pel Droed y Cymric yn y tudalennau hyn yn siwr o fod wedi eich siomi yn arw gan absenoldeb unrhyw adroddiad y mis hwn, ar ddiwedd y tymor. Gwyddom i Glwb y Ddinas ddisgyn i'r Bedwaredd Adran yng Nghynghrair Lloegr. Tybed ai gwir y sibrydion a gyrhaeddodd swyddfa'r Dinesydd fod tynged tebyg wedi dod i ran timau'r Cymric a'r Aelwyd?

# GOLAU AR Y GORWEL I BLAID CYMRU

Ar ôl saith mlynedd o fod dan gwmwl trychineb Refferendwm 1979, mae Plaid Cymru yn ôl yng nghanol y llwyfan gwleidyddol.

I bawb sy'n meddwl taw Cymru ac nid Prydain yw eu cenedl, mae'r amcan o hunan - lywodraeth gyfan yn un ddilys iawn, ond gan fod rhyddid cenedlaethol mor bell o ddigwyddiadau 1979, mae Plaid Cymru ers hynny wedi bod yn blaid heb lawer o hygrededd gwleidyddol. Nid yw'r ffaith yma yn dibrisio ymgyrchoedd y Blaid yn y cyfnod anodd yma yn erbyn y cwtogi ar swyddi yn y diwydiant dur, dros brydleswyr, dros sefydlu S4C, dros y glowyr, dros hawliau pobl anabl, dros chwarelwyr Blaenau Ffestiniog, dros ddiarfogi niwcliar a thros achosion amryw o leiafrifoedd difreintiedig. Sut bynnag, mewn cyd - destun etholiadol, ac yn arbennig etholiadau seneddol, mae Plaid Cymru wedi bod ar y tu fas yn y rhan fwyaf o Gymru. Ar y llaw arall, mae 'na gydymdeimlad a gwerthfawrogiad eithaf eang o'r gwaith mae'r Blaid yn ei wneud, ond ni throsglwyddwyd mohonynt yn bleidleisiau hyd yn hyn. Nawr o'r diwedd mae 'na lygedyn o olau ar y gorwel gyda pholisi newydd Plaid Cymru yn dangos y ffordd ymlaen i Gymru - cam cymhedrol a cham clir a phendant sy'n ymdrin a phroblemau cyfoes ac a chysylltiadau Cymru a Llundain, Brwsel a'r byd masnachol yn gyffredinol.

Mae'r polisi yn galw am senedd i Gymru a chant o seneddwyr yn gyfrifol am;

(a) oruchwylio gwaith y Swyddfa Gymreig
(b) y gwaith a wneir yn awr gan y Cyd Bwyllgor Addysg
(c) sefydlu pwyllgor grantiau i golegau Cymru a goruchwylio addysg uwch
(ch) ddemocrateiddio 'quangos' a'u gwneud yn atebol i'r senedd
(d) reoli cynghorau ymchwil yng Nghymru
(dd) oruchwylio darlledu
(e) drafnidiaeth
(f) roi hwb i ddiwydiant yng Nghymru
(ff) reoli cyllid a pholisiau'r Byrddau Datblygu
(g) ymdrin yn uniongyrchol a chwmniau rhyngwladol sydd yng Nghymru
(ng) ffurfio cynigion am newidiadu deddfwriaethol yn perthyn i Gymru i'w hystyried yn San Steffan
(h) greu cysylltiadau uniongyrchol â sefydliadau y Gymuned Economaidd Ewropeaidd



Caiff y Senedd ei hariannu drwy grant a thrwy bwerau cyfyngedig i godi trethi ar dwristiaeth, glo, dwr, coedwigaeth a physgota.

Mae'r cynnig yn un atyniadol am sawl rheswm: mae'n gam naturiol ymlaen, mae'n democrateiddio'r Swyddfa Gymreig ac ar yr un pryd yn creu peirianwaith i'n galluogi i ymdrin â rhan helaeth o'n problemau ein hunain, gan gynnwys yr economi, sydd fel siop siafins ar hyn o bryd.

Yn yr Alban, mae'r SNP yn tyfu unwaith eto ac mae'r gynghrair newydd a ffurfiwyd gyda Phlaid Cymru yn sicr o dynnu sylw at y cwestiwn cenedlaethol yn y ddwy wlad, ac ni all Neil Kinnock ei anwybyddu os yw am wireddu ei freuddwyd o fyw yn rhif 10 Downing St.


Yn yr etholiad cyffredinol nesaf, ni fydd rhaid i etholwyr Caerdydd, Casnewydd, Wrecsam ac ati ddigaloni ar y syniad o roi pleidlais i ymgeisydd Plaid Cymru, gallant fwrw pleidlais dros Senedd i Gymru yn ffyddiog y bydd pob pleidlais yn cyfrannu at ymgyrch gendlaethol fuddiol.

Os ydych am glywed rhagor, ewch i Glwb Ifor Bach, Stryd Womanby, gyferbyn â'r Castell, ar Nos Fercher Mai 14eg pan fydd Dafydd Ellis Thomas, A.S. a Hywel Teifi Edwards, ymgeisydd y Blaid yng Nghaerfyrddin yn siarad mewn rali i lansio'r y mgyrch newydd yn y brifddinas. Fe fydd yn noson hanesyddol.

OWEN JOHN THOMAS

# COF CENEDL *Ysgrifau ar Hanes Cymru*

Mae Gwasg Gomer wedi cychwyn ar fenter newydd ym myd astudio hanes Cymru drwy gyhoeddi 'Cof Cenedl', sef y gyfrol gyntaf mewn cyfres a fydd yn ymdrin â'n hanes. Ceir ynddi chwe ysgrif gan rai o brif haneswyr Cymru, gan ymdrin a materion mor amrywiol â Michael D. Jones, llenyddiaeth Brotestannaidd gynnar, a'r gymdeithas chwarelyddol yng Ngwynedd. Mae hefyd erthyglau am bwnc yr iaith yn yr oesoedd canol, y mudiad cenedlaethol dros y ddwy ganrif ddiwethaf a thwf y mudiad heddwch. Nôd y gyfres yn ôl y broliant ar y llyfr yw 'dyfnhau a grymuso ymwybyddiaeth y Cymry Cymraeg o'u tras a'u hetifeddiaeth'. Golygydd y gyfrol yw Geraint H. Jenkins, a cheir cyfraniadau gan Llinos Beverley Smith, Glanmor Williams, R. Tudur Jones, R. Merfyn Jones, Kenneth O. Morgan, a'r golygydd ei hun.




# Hwyl GLA'ME

Bellach os ydych chi am gael dathlu Calan Mai, does dim rhaid i chi fynd i Moscow i edrych ar daflegrau diweddaraf Rwsia, na gwrando ar ddatganiadau o risiau'r Kremlin. Ers creu gwyl banc newydd ar ddechrau'r mis, mae'r cyfle wedi dod i adfer yr hen arfer o gynnal Gwyl G'lanmai, ac mae sawl un i'w chynnal eleni eto, b'le y gall pobl o bob oedran fwynhau eu hunain yn haul y gwanwyn cynnar, gan gadw llygad ar yr awyr rhag bod cymylau'n dod â'r gwynt a'r glaw.

Mae Gwyl gyhoeddi Eisteddfod yr Urdd Merthyr Tudful (Mai 5ed - Gwyl y Banc) yn un achlysur fydd yn cymryd arno'r ysbryd carnifalaidd hwn. Nid cerdd dant, cyd adrodd a dawnsio gwerin yn unig a geir eleni: mae nifer o atyniadau ac arddángosfeydd mwy anarferol wedi eu trefnu, a gobeithia'r trefnwyr ddenu cymaint â 10,000 o bobl i'r Ganolfan Hamdden yn Rhydycar. Ceir arddangosfeydd gan y Frigâd Dân, Tîm Achub Bywyd a nifer o anifeiliaid, yn gwn Alsatiaidd, adar ysglyfaethus, a hefyd (drwy drugaredd) gobiau Cymreig. Bydd cyfle i fynd am reid mewn Sinclair C5, a chyfle i geisio sgorio gôl yn erbyn cyn ôl - geidwad Cymru, Dai Davies. Bydd yno fand pres, ffair grefftau a balŵn aer twym.

Yn ogystal â'r anifeiliaid confensiynol uchod, bydd rhai llai cyffredin yno, sef Superted, Mr. Urdd, Pengwin, Sbon a Weliffant. Dylai'r achlysur fod yn un lliwgar a chofiadwy.




Gwyl yn y dull modern a geir ym Merthyr, ond yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan, maen nhw'n bwriadu mynd un cam ymhellach tuag at adfer y traddodiad o Wyl G'lanmai. Ar dridiau ddechrau'r Mis (9fed, 10fed, 11eg o Fai) cynhelir yr hyn a ddisgrifir fel 'Gwyl Hen Galan Mai' yn yr Amgueddfa. Darperir dros gant o wahanol weithgareddau ar bob un o'r tri diwrnod.

Bydd arddangosfeydd hen beiriannau a thractorau, pysgota, macsu cwrw a choets fawr. Bydd cyfle i fynd ar daith hyd lwybrau coedwigoedd mewn hen wagen fferm. Unwaith eto, mae'r anifeiliaid yn amlwg, yn gwn defaid, ceffylau gwedd a gwennyn. Ceir llawer o hen ddifyrion traddodiadol yr Wyl G'lanmai, yn ddawnsio gwerin a chwaraeon, gan gynnwys rasis cylch a bachyn, fersiwn yr Hen Ddyddiau o'r Sinclair C5.

Proffwydoliaeth hyderus yr Amgueddfa yw y bydd i'r Wyl ddatblygu'n ddigwyddiad blynyddol ac yn Wyl Genedlaethol arall o bwys. Diau y bydd safle braf yr Amgueddfa Werin yn gymorth i ddenu'r miloedd yno i elwa ar yr arlwy a ddarperir, ac y bydd yr Wyl hon yn gyfrwng i ddenu mwy o bobl i ymddiddori yn nhraddodiadau gwerin Cymru.



# LLYTHYRAU

Ysgol Gymraeg Caerffili
Stryd Parc y Felin
Caerffili

Annwyl Dinesydd,
Ar Fawrth yr ugeinfed, fe ddaeth Cwmni Drama'r Fran Wen i'n hysgol. Cwmni sydd newydd ddechrau ymddangos yn y De yw'r Fran Wen. Tri o actorion sydd yn y cwmni, Gwen Lasarus, Llio Silyn a Martin Wigley-Evans. Cyn i'r ddrama ddechrau, daeth Llio draw i'n dosbarth i esbonio'r ddrama i ni. Drama am lygredd gwersyll gwyliau yng Nghaliffornia yw 'Cadwyn Frau.' Nid drama gyffredin yw hi, mae'r gynulleidfa yn rhan bwysig ohoni. Roedd y syniad yn un ardderchog. Hoffen ni weld mwy o'r cwmniau yma'n cael eu ffurfio oherwydd rydyn ni'n meddwl bod eisiau mwy o ddramau fel hyn, dramau lle mae'r gynulleidfa o blant yn cael cyfle i drafod rhyw bwynt sy'n codi yn y ddrama neu i gynnig gair o gyngor. Hoffen ni ddiolch i'r cwmni am gynhyrchu drama fel hon.
DOSBARTH 1 O

## DIOLCH

Cymoth Cristnogol
27, Heol yr Eglwys,
Yr Eglwys Newydd

Annwyl Olygydd,
Dymunaf fanteisio ar y cyfle hwn i fynegi gwerthfawrogiad staff Cymorth Cristnogol yng Nghymru i bawb a gyfrannodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf tuag at anghenion ein cyd - ddyn yn y Trydydd Byd.

Cafwyd ymateb rhagorol gan bobl Cymru i gynorthwyo'r rhai sy'n dioddef yn ofnadwy yng ngwledydd Affrica, yn arbennig yn Swdan ac Ethiopia. Pleser yw cyhoeddi bod Cymorth Cristnogol wedi derby 10,000 o gronfa 'Byd Bont' sef elw o gyngerdd a fu ym Mhontrhydfendigaid Mis Medi a'r hyn gafwyd o werthiant y casetiau a gyhoeddwyd o'r gyngerdd. Mawr ddiolch i drefnwyr cyngerdd 'Byd Bont', i'r artistiaid am eu gwasanaeth di-dal ac i bawb am gefnogi menter hynod lwyddiannus.

Mawr yw angen ein cyd-ddyn yn y gwledydd tlawd, a mawr hefyd yw ein braint a'n cyfle i'w cynorthwyo. Cawn gyfle i wneud hynny eleni eto yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol (12-17 Mai) wrth i ni geisio gwireddu thema'r wythnos - Newid er Gwell . Hyderwn y bydd pawb ohonom yn cefnogi'r casgliadau yn ein broydd ein hunain yn ystod yr 'Wythnos'. Wrth hyn, byddwn yn uno i newid bywydau unigolion er gwell mewn dros 100 o wledydd lle mae Cymorth Cristnogol yn cefnogi ein partneriaid.

Gall eich rhodd newid amgylchiadau byw i filoedd wrth eu galluogi i dyfu mwy a gwell bwyd iddynt eu hunain, rhoi gwellhad iddynt o amryw heintiau a chlefydau a'u galluogi i gael cyfleusterau gwell i goncro'r rhwystrau sy'n atal datblygiad mewn llawer gwlad. Ein gobaith yw y bydd pobl eich bro yn cefnogi Cymorth Cristnogol i sicrhau 'Newid er Gwell' i'r afiach, y digartref, y newynnog a'r rhai o dan ormes.

Cyfrannodd Cymru ~268,000 adeg yr 'Wythnos' llynnedd a mawr hyderwn y bydd eich hymdrechion eleni yr un mor hael.

Gyda llawer o ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.
Yn ddiffuant iawn,
Wynn Vittle (Ysgrifennydd Cymru)

Ty Coch
Cefn Melyn
Cilcain
Yr Wyddgrug
Clwyd

Annwyl Olygydd,
Tra oeddwn yng Nghaerdydd yn ddiweddar, darllenais erthygl flaen Chwefror, sef 'Gwarth y Gweisg', yn Y Dinesydd'. Yn wir, mae hi'n hen bryd datgelu'r gwarth a dylid fynd ati ar fyrder i sefydlu ymchwiliad i gyhoeddi yng Nghymru. Dro yn ôl, cyhoeddwyd llyfryn o'm heiddo. Bum am ddwy flynedd yn paratoi'r llyfr, a chefais i ddim dimai goch am wneud, ac fe'i cyhoeddwyd heb arwyddo cytundeb. Mae'r broses o fynd i gyfrath yn un gymhleth ac yn gostus. Gwn innau am awduron eraill a gafodd driniaeth warthus debyg. Diolch i chi am eich cymwynas o gyhoeddi'r erthygl a gobeithio y daw gwell trefn ar bethau.

Cofion,
Meredith Edwards

## COPIO'R COPAR!



Miss Manon Wyn Tomos o Bron Wylfa, Llanwnda, Caernarfon a Mr. Ieuan Rhys o 40b Harriet St. Trecynon, Aberdar a briodwyd yng Nghapel Salem, Ty'n Lôn, Llandwrog ar Ddydd Sadwrn y Pasg. Mae Manon ar staff yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan a Ieuan Rhys yn actor - mae'n adnabyddus fel Sgt. James yng nghyfres deledu boblogaidd BBC Cymru 'Pobl y Cwm'.

PLAID CYMRU

NOSON LANSIO YMGYRCH
SENEDD I GYMRU

CLWB IFOR BACH, STRYD WOMANBY

NOS FERCHER MAI 14eg 7.30

SIARADWYR: DAFYDD ELIS THOMAS A.S.
HYWEL TEIFI EDWARDS

ADLONIANT GAN HUW CHISWELL

BWFFE

MYNEDIAD: £2

## MARCIAU LLAWN

Go brin y bu achos i lawenhau yng Nglantaf y misoedd diwethaf hyn wedi clywed am benderfyniad Pwyllgor Addysg De Morgannwg i rannu'r ysgol rhwng dwy safle, gan ddifa cymuned glos ysgol gyfan a diflasu disgyblion, athrawon a rhieni fel ei gilydd. Ond o ganol y tywyllwch daeth pelydren o oleuni a hynny ar ffurf newyddion da am lwyddiant rhai o'r disgyblion.

Ar yr ochr academaidd, enillodd Heledd Stephens ysgoloriaeth i Goleg y Brifysgol, Bangor ac hefyd un i Goleg y Brifysgol, Aberystwyth. Dyna ddewis anodd!

Enillwyd dwy ysgoloriaeth Evan Morgan i Goleg y Brifysgol Aberystwyth gan Siân Thomas a Siôn Jobbins.

Enillodd Ffion Jenkins le yng Ngholeg yr Iesu, Rhydychen, gyda chanmoliaeth uchel am safon ei gwaith.

Bydd Non Pugh yn mynd i Goleg Downing, Caergrawnt i astudio meddygaeth.

Daeth clod arbennig i Rhiannon Lloyd Jones, pan ddyfarnwyd gwobr Edith Henry a Constance Haddon iddi am ennill y marciau uchaf dros gyfnod o ddwy flynedd yn yr arholiadau piano yr "Associated Board". Bydd yn cael cyfle i ddilyn cwrs o wersi yn yr Academi Brenhinol, Llundain.

Dewiswyd Sara Lloyd, Rhiannon Lloyd Jones a Susan Phillips i fynychu cynhadledd wyddonol trwy gyfrwng y Gymraeg yn Wrecsam.

Cafodd Tîm Glantaf lwyddiant arbennig yn y gyfres 'Ysgoloriaeth'ar S4C. Dim ond o drwch y blewyn y collodd y tîm yn y rownd derfynnol, ond roedden nhw wrth eu bodd o gael cyflwyno ail wobr cwmni HTV - siec o £500 - i'r Prifathro. Aelodau'r tim oedd Geraint Lloyd, Ceri Gwynfryn, Dylan Hughes a Sioned Mererid.

Fore Gwyl dewi, gwelwyd enwau nifer o ddisgyblion ymhlith enillwyr cystadleuaeth taethawd y 'Western Mail' yn yr adran Gymraeg a'r adran Saesneg - Rhys Morgan, Owain Prys Evans, Rhodri Wyn Jones, Rhys Thomas a Rhian Coles.

Enillwyd gwobr o £500 gan grwp o ddosbarth 3 am brosiect ar ddiwydiant. Aelodau'r grwp oedd Rebeca Evans, Catrin Edwards, Rhys Owen Jones, Iolo Davies a Rhodri Wyn Jones.

Calondid mawr hefyd oedd clywed am rai disgyblion yn cael swyddi wedi gadael ysgol. Cafodd Mark Hurley swydd yn y Swyddfa Gymreig a Sharon Griffiths waith gyda Chwmni Arlwyo Carters.

Mae yna bencampwyr ym myd chwaraeon yr ysgol hefyd, ond mwy am rheini y tro nesaf.


**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

# CLWB IFOR BACH

Mentro i'r maes rygbi

| | |
|---|---|
| Staff Ysbyty'r Eglwys Newydd | 24 |
| Clwb Ifor Bach | 12 |

Nid rhywbeth hawdd yw cychwyn tîm rygbi o'r newydd mewn dinas sydd a channoedd o dimau'n barod. Ond dyna fwriad nifer o aelodau clwb Ifor Bach. Dan arweinyddiaeth trefnydd newydd y clwb, Gwynfor Davies o Lanisien a chyda chefnogaeth frwd cyn-ddisgyblion Glantaf Stephen Williams a Garmon Emyr, daeth pymtheg o ddewrion at ei gilydd un noson oer iawn ym Mis Ebrill.

Yn anffodus, nid oedd yn bosib i Stephen chwarae, ond serch hynny roedd pymtheg o chwaraewyr y Clwb ar y cae. Chafodd y tim ddim cyfle i gwrdd, heb son am ymarfer cyn y gem, felly tîm mewn enw yn unig ydoedd. Clwb a sylfaenwyd gan Tim Scott, Cymro Cymraeg ifanc o Riwbeina ydi Ysbyty'r Eglwys Newydd, clwb sydd newydd gwpla ei ail dymor yng Nghynghrair Rhanbarth Caerdydd.

Aeth tîm yr Ysbyty ar y blaen yn gynnar iawn ac er i glwb Ifor Bach ddangos potensial mawr, nid oedd hynny'n ddigon i guro cydweithrediad agos a hwyl y gwrthwynebwyr.

Heb os nac onibai, Dafydd Emyr, brawd bach Arthur, ond brawd mawr Garmon, oedd seren y noson. Fel maswr, ciciodd bwyntiau y Clwb i gyd - cic gosb, gol adlam, cais a throsiad. Un o sêr eraill y Clwb oedd Sion Eirian, y cafodd ei ddrama 'Wastad ar y Tu Fas' y fath lwyddiant yn ystod yr un wythnos..

Gobeithir erbyn copi nesaf Y Dinesydd y bydd tîm rygbi Clwb Ifor Bach wedi ei sefydlu yn swyddogol yn barod ar gyfer y tymor nesaf. Disgwylir y bydd y tîm yn asiad o gyn - ddisgyblion Glantaf a Llanhari ac aelodau eraill y clwb. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch a Gwynfor Davies, trefnydd y clwb, ffôn 32199 neu gartref 754003.



Gwynfor Davies Trefnydd newydd Clwb Ifor Bach, ac arweinydd y tim rygbi

Drama yn y Clwb

Mae neuadd Clwb Ifor Bach wedi bod yn brysur yn ddiweddar fel canolfan i waith drama. Ddiwedd Chwefror, cynhaliwyd perfformiad llwyddiannus iawn o 'Man a Man' gan Gwmni Theatr Gorllewin Morgannwg. Wedyn am bedair wythnos, defnyddiwyd y neuadd gan Theatr Whare teg i ymarfer drama T. James Jones 'Nadolig fel Hynny', gyda Ronnie Williams, Elisabeth Miles, Dewi Morris, Emyr Wyn, Sara Moore Williams a Geraint Lewis dan gyfarwyddyd Dafydd Hywel.

Cafodd Caerdydd wledd o ddramau Cymraeg yn ddiweddar gyda chwmniau proffesiynol a Chwmni Theatr Ieuenctid yr Urdd yn perfformio mewn llefydd fel Chapter, Gofod Sant Steffan a Theatr Arena y Sherman. Nid yw neuadd clwb Ifor Bach gyda'i chyfyngiadau corfforol yn addas i gynnal pob drama, ond gyda seddau i hyd at ddau gant o bobl, mae ganddi botensial nad yw'n ei gwireddu ar hyn o bryd o bell ffordd. Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor y clwb yn ystyried cynlluniau i weddnewid adnoddau'r clwb, ac yn sicr bydd lle i ddrama yn y drefn newydd. Croesewir syniadau darllenwyr y Dinesydd gan y pwyllgor.



SNWCERWYR O FRI

Mae dau o aelodau tîm snwcer Clwb Ifor Bach yn adnabyddus yn y byd adloniant - Eric Dafydd (ar y chwith yn y llun) a Phil Harries (ar y dde yn y llun). Mae Eric wrth gwrs yn gyn aelod o'r grwp 'Y Dyniadon Ynfyd Hirfelyn Tesog' tra bo Phil yn aelod o'r grwp cyfoes 'Tan Tro Nesaf' ac yn actor hefyd. Mae'n siwr ichi ei weld yng nghyfres ddychanol newydd gyfoes boblogaidd Tir Glas sydd i'w gweld ar nosweithiau Sul yn gyfamserol, sef 'Plu Chwithig'. Ond does dim byd yn chwithyg yn snwcer Phil a brysiwn i wadu'r cyhuddiad a glywid mewn rhai mannau yn ddiweddar bod Eric yn 'ynfyd o hir wrth botio'r felen.'

Sylfaenydd y tim yw Alan Jobbins a'r aelodau eraill yw John Griffiths, ysgrifennydd aelodaeth y Clwb, Graham O'Neill, Alan Stanley, Tim Scott ac Euros Thomas.

Mae'r tîm yn chwarae bob nos Iau yn y gynghrair leol, ac yn ennill nawr ac yn y man. Dewch i'w cefnogi.

GWINLLAN PANT TEG

Wrth i'r Dinesydd fynd i'r wasg, daeth newyddion i law fod criw o Gymry Cymraeg y ddinas wrthi'n plannu gwinwydd yng ngwinllan newydd Pant Teg ar gyrion y ddinas. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ond gobeithir cynnwys rhagor am y pwnc yn y dyfodol.

## Mudiad Ysgolion Meithrin

CYRSIAU HYFFORDDI ARWEINYDDION A CHYNORTHWYWRAGEDD

YN EISIAU:

Staff y Meithrinfeydd, Caerdydd a'r Barri. Gallu siarad Cymraeg a thystysgrif N.N.E.B. yn fantais.
8 Medi '86 - 2 Gorffennaf '87 (gwyliau ysgol) pedwar neu bum bore yr wythnos. 9.15 - 11.45 o'r gloch. Arweinyddion £2.50 yr awr. Cynorthwywragedd £1.50 yr awr.

Tiwtoriaid y Cyrsiau gyda phrofiad sylweddol o weithio gyda phlant dan bump oed a phrofiad dysgu Cymraeg fel ail iaith os bosibl. 25 - 30 sesiwn ddwy awr yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf 1987 (gwyliau ysgol). Un sesiwn boreol bob wythnos, rhai sesiynnau nos a dau weithdy sadwrn. Telir graddfeydd tiwtoriaid oedolion.

*****************************************

Yn anffodus, rydyn ni'n dal i chwilio am dair arweinyddd. Allwch chi helpu?

1. Glanyrafon - Grwp bach hyfryd gyda deg o blant (yr uchafrif). 5 bore, 9.30 i 12.00 o'r gloch.

2. Glanyrafon - Dau brynhawn, Mawrth a Mercher 1 - 3 o'r gloch. Dim ond pum plentyn ar hyn o bryd. Uchafrif - deg plentyn.

3. Trelai - Pum bore yr wythnos, 9 - 12 o'r gloch. Mae cynorthwywraig Gymraeg barhaol newydd ddechrau yma.

*****************************************

GWYL FEITHRIN '86 3 - 10 MAI

Gorymdaith y Plant ar y 10fed o'r Amgueddfa Genedlaethol am 1 o'r gloch i Neuadd Dewi Sant.
Thema:- Pobl o'n Cwmpas

*****************************************

Am fanylion pellach, cysylliter â:

Elaine Pye, Swyddog Datblygu Caerdydd.
Ffôn 762232

Margaret Knight, Swyddog Datblygu Y Fro
Ffôn 891353

CYNGOR Y CELFYDDYDAU

Cynhelir

## GWEITHDY I AWDURON

sy'n dymuno ysgrifennu ar gyfer plant yng Nghaerdydd ar Ddydd Sadwrn 21ain Mehefin

Ceir manylion pellach oddi wrth

Nan Griffiths,
Yr Adran Lenyddiaeth,
Cyngor y Celfyddydau,
Stryd yr Amgueddfa,
Caerdydd.

Ffôn: 394711

# ECIWMENIAETH O'R DIWEDD!



Mae'r Ysgrythur yn dweud lle bynnag y daw dau neu dri ynghyd yn enw Crist, yno mae eglwys. Erbyn hyn nid oes na dau na thri yn cwrdd mewn nifer helaeth o'r adeiladau hynny hyd a lled Cymru a fwriedid yn fan cyfarfod i gannoedd. Eto ystyrir yr adeiladau hyn, a'r cof amdanynt ar lafar ac mewn ysgrifen yn rhan werthfawr o'r dreftadaeth Gymreig.

Ar y 3ydd o Fai bwriedir cynnal cyfarfod sefydlu, nid sefydlu achos newydd, ond i warchod yr hyn sy'n weddill o nifer o hen achosion. Bydd cyfarfod cyntaf CAPEL: Cymdeithas Treftadaeth y Capeli yn cael ei gynnal yn Eglwys Ddiwygiedig Unedig y Ddinas, Windsor Place, a Syr Goronwy Daniel yn llywydd. Bwriad CAPEL fydd 'astudio, cofnodi, a dehongli pensaerniaeth ac archifau Anghydffurfiaeth yng Nghymru, a rhoi hwb er eu diogelu.' Penderfynwyd sefydlu'r Gymdeithas yn sgîl cynhadledd arall a gynhaliwyd dros y Sul yng Ngregynog ym 1984, a enynnwd yn ei thro gan yr arddangosfa 'Capeli Cymru' a gynhaliwyd gan yr Amgueddfa Genedlaethol. Cynnyrch cyfarfodydd cyson gweithgor a sefydlwyd i drafod y sefyllfa yw'r gymdeithas hon.

Gobeithir y bydd y Gymdeithas yn cynnwys cynhrychiolwyr yr holl enwadau Anghydffurfiol yng Nghymru ynghyd â rhai o blith cymdeithasau proffesiynol hefyd.

Yn sesiwn bore'r Gynhadledd ceir anerchiadau gan yr Athro Anthony Jones, trefnydd yr arddangosfa 'Capeli Cymru' a Dr. Brynley Roberts y Llyfrgellydd Cenedlaethol. Pwnc eu darlithiau fydd y bygythiad i bensaerniaeth capeli ac i archifau Anghydffurfiol. Yn y prynhawn, disgwylir i'r cynrychiolwyr ymdrin ag argymhellion y Gweithgor, a mynd ati i sefydlu CAPEL yn swyddogol.

# COFIO'R CAPEL

Mae sawl man ac adeilad yng Nghaerdydd sydd wedi bod yn fan addoli ar gyfer cynulleidfaoedd o Gymry Cymraeg yn y ddinas, ac y mae'r cof amdanynt bron a diflannu ymysg y Cymry Cymraeg cyfoes. Dyma lun o Siloam, Capel y Bedyddwyr Cymraeg ar Corporation Road. Sylfaenwyd yr achos yn wreiddiol yn Mountstuart Square yng Nghanol y ganrif ddiwethaf. Rywbryd yn ystod y ganrif hon, daeth yn achos Saesneg, ac fe werthwyd yr adeilad i Fyddin y Iachawdwriaeth. Ail sefydlwyd yr achos wedyn ar Ystad Llanrymni. Tybed a oes gan unrhyw un o ddarllenwyr Y DINESYDD atgofion am y capel hwn? Os oes, beth am ysgrifennu at y Golygydd i ddweud.



# Arddangosfeydd MAI

FFOTOGALLERY
31 HEOL SIARL

Y Gyrchfan Olaf - Martin Parr
Tir trallodus - Paul Graham
1 Mai - 31 Mai

Y cyrchfan olaf y cyfeirir ato yw New Brighton ar y Wirral. Tre glan mor i'r crachach a fu new Brighton ar un adeg, ond erbyn hyn mae newid ar fyd a thlodi ardal Lerpwl wedi effeithio cryn dipyn arni. Serch hynny, mae'n fan poblogaidd a phobl Lerpwl wrth iddynt ddianc o'u hamgylchfyd trefol. Ers talwm roedd ysgolion Sul rhannau o'r hen Sir Fflint a Sir Ddinbych yn mynd ar dripiau yno yn flynyddol. Mewn lliw y mae Martin Parr yn dehongli'r bobl wrthi'n mwynhau glan mor.

Y Tir Trallodus, bron yn anorfod, yw Gogledd Iwerddon, ac y mae Paul Graham yn arddangos cyfres o luniau mewn lliw a du a gwyn sy'n edrych ar y berthynas rhwng ymrafael ac amgylchfyd neu dirlun trefol. Dengys y lluniau y modd y mae'r problemau wedi treiddio i mewn i fywyd pob dydd.

FFOTOGALLERY

Yn ddiweddar mae Cymdeithas Ffotograffwyr Cymru wedi symud o 41 i 31 Heol Siarl, b'le mae llawer gwell cyfleusterau ac orielau i arddangos eu gwaith. Ar y llawr cyntaf mae oriel nwyddau ac oriel lan a deniadol iawn, tra ar yr ail lawr ceir rhagor o ystafelloedd a ddefnyddir fel orielau hefyd. Y cyfan yn dwt a thaclus, carpedi ar y lloriau a goleuadau effeithiol pan fo angen. Gan mor boblogaidd yw y rhan yma o Heol Siarl, sydd a chapel Ebeneser a siop reit enwog wrth law, fe ddylai'r Ffotogallery ddenu llawer o ymwelwyr, a mi allaf ei gymeradwyo fel man gwerth taro i mewn o dro i dro.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL - TY TURNER
PLYMOUTH RD. PENARTH

Gwilym Prtchard / Claudia Williams
Peintiadau Diweddar. 2 Mai - 8 Meh.

Golygfeydd yng Nghymru, Groeg a Provence yw cynnwys yr arddangosfa hon o waith y ddau adnabyddus yma. Bu'r ddau yn byw dramor am fwy na blwyddyn bellach, a'u cynnyrch diweddaraf sydd yma. Fel o'r blaen, ysbrydolir Gwilym gan ei dirluniau, a'i wraig Claudia gan ffigyrau - pobl mewn sefyllfaoedd.

CHAPTER
HEOL Y FARCHNAD, TREGANNA

Alan Millar
Cofadail a Chofion. 5 Ebr. - 17 Mai

Arddangosfa o luniadau a phaentiadau

Hughie O'Donoghue
Peintiadau a lluniadau 1978 - 1986.
24 Mai - 21 Meh.

Arddangosfa adolygol un a fu yn artist preswyl am flwyddyn y llynedd yn yr Oriel Genedlaethol yn Llundain.

ORIEL YR OLD HALL Y BONTFAEN

Gwyn Roberts Mai3 - 23

Pennaeth adran gelf Ysgol gyfun Llanhari yw Gwyn Roberts sy'n byw yn Llyswyrny ger Y Bontfaen. Astudiodd yng Ngholeg Celf Norwich, b'le y cymerodd radd yn y celfyddydau cain, ac yng Ngholeg Celf Caerdydd. Mae wedi arddangos ei waith mewn sawl man yng Nghymru a Lloegr Mae'r Arddangosfa hon o'i waith yn cynnwys peintiadu a phrintiau sgrin sidan.

SEIRIOL DAVIES


## Ysgrifennydd/es Clerc/Teipydd
### Swyddfa Cytundebau

Ar hyn o bryd mae gennym ddwy swydd wag yn ein Swyddfa Cytundebau yn ein Canolfan Deledu yng Nghaerdydd. Mae'r Swyddfa Cytundebau yn adran brysur a'i phrif swyddogaeth yw hurio artistiaid a chyfranwyr eraill ar gyfer ein rhaglenni. Felly, mae Cymraeg ysgrifenedig rhugl yn angenrheidiol ar gyfer y ddwy swydd.

Dylai'r ymgeiswyr am y swydd ysgrifenyddol feddu personoliaeth ddymunol a llawfer a theipio o'r radd flaenaf, ac ar gyfer y swydd clerc/teipydd yr ydym yn chwilio am berson sy'n gallu teipio yn gywir a chyflym.

Cyflog, yn cynnwys atodiadau lleol fel a ganlyn:
Ysgrifennydd/es: £7,000 y flwyddyn.
Clerc/teipydd: £6,400 y flwyddyn.

Dylai ymgeiswyr cymwys anfon am ffurflen gais, gan nodi y cyfeirnod DI/495 (ysgrifennydd/es), a DI/496 (clerc/teipydd) gydag amlen hunan-gyfeiriedig at: Rheolwr Personel, HTV Cyf., Y Ganolfan Deledu, Caerdydd CF5 6XJ.

YR YDYM YN GYFLOGWYR CYFLE CYFARTAL

HTV

# Colofn Shân Emlyn



Wel mae mis Y Dinesydd yn un byr, pythefnos ydio a deud y gwir! Dwi'n eistedd wrth fwrdd y gegin yn ceisio dyfalu am be i son amdano yn y golofn y mis yma. Mae'r postmon newydd fod a gofyn cwestiwn digon doniol i mi. "What is the name of your house? Coed y Pry or Y Dinesydd?" Fel 'na mae hi yma, sy'n f'atgoffa o'r hen gan: "Llythyr ddaeth yn fore iawn, ac un arall y prynhawn" - a rhan helaeth ohono'n ohebiaeth i'r Dinesydd. Arwydd cefnogol fod y papur yn fyw ac yn effro.

Llythyr arall yr ydw i newydd ei ddarllen ydy gwahoddiad i gymryd rhan mewn noson i ddathlu penblwydd Sinema Neuadd y Dref Pwllheli yn dri chwarter canrif oed - dyma ddychymyg yn mynd yn drech na mi. Neuadd y Dref Pwllheli? Naci wir - yr Hen Down Hôl ydy hi i mi. Wyddoch mai yno y dysgais i nad ydy deud celwydd yn talu. Cofiaf noson boenus pan yr own i ar dan eisiau mynd i'r Pictiwrs ar Nos Fercher 'Nos Sadwrn Fach' oedd honno i mi bryd hynny. Ond na, dim ond ar Nos Sadwrn y caniatai fy rhieni i mi fynd i'r pictiwrs. Dyna ddweud wrth fy rhieni fy mod am fynd i'r llyfrgell, a honno gyferbyn a'r Town Hôl, ac wrth gwrs i'r 'First House' yn y Town Hôl yr es i. Dros swper wedyn - a chofiwch chi, doedd gennym ni ddim teledu - dyma fi'n rhoi fy nhroed ynddi a deud, "Wyddoch chi be welish i ar y Niws heno 'ma?" Mi gefais bregeth go helaeth mai dweud y gwir sy' dda bob amser. Byth oddi ar hynny, mae dweud celwydd yn hunllef i mi.

Atgof arall am yr hen Down Hôl ydy' cofio hunllef arall. Canu yn ferch ifanc yng Nghyngerdd Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli 1955. Rhaid oedd cael 'evening dress' benthyg ffrog morwyn briodas gan gyfnither, a doedd hi ddim yn ffitio'n dda iawn, na'i lliw yn apelio ata'i. Ond dyna ni, bodloni fu raid! Ar ddiwedd y cyngerdd, a ddarlledwyd yn fyw ar y Radio, gofynnwyd i mi ganu yr Anthem Genedlaethol, a wyddoch chi be', ar ol y ddwy linell gynta', mi aeth hi'n niwl arna'i. Codais fy mreichiau i annog y gynulleidfa i ymuno â mi. Roedd un o'r caneuon a genais yn ystod y cyngerdd yn addas iawn i ddisgrifio fy nheimladau: "O Doctor, Doctor, dowch ar frys, mi rydw'i'n chwys diferyd". Roedd mawrion y dref ar y llwyfan efo mi gan gynnwys Leila Megane, gwraig wadd y noson. wyddoch chi nad ydw i byth oddiar hynny wedi cytuno i ganu'r Anthem Genedlaethol ar fy mhen fy hun.

Mae'r golofn yma'n Ogleddol iawn y mis yma. Wel mae yna reswm arall am hynny. Yng nghanol hwrli bwrli'r ty yma, mi rydan ni wedi bod yn y Gogledd, dros y sul ddwywaith yn olynol, am fod Mari'n prynu tŷ yno, yn Augusta Place, Y Felinheli - y pentre lle treuliais bum mlynedd o'm plentyndod. Tydio'n rhyfedd fel mae'r gorffennol a'r presennol yn gallu bod yn un gybolfa fawr?


Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
62 Heol Monthermer,
Y Waun Ddyfal.
Ffôn: Caerdydd 43367




# Dal i frwydro

Llawenydd a ddaeth i'n calonau yn ddiweddar wrth i Gyngor Sir De Morgannwg gyhoeddi bod ysgol gynradd Gymraeg arall i gael ei hagor yn y dyfodol agos. Roedd yn newyddion da i bawb. Mae'r ysgol yn hollbwysig i ddyfodol y Gymraeg yn y Brfddinas. Ond, gadewch i ni fod yn onest, gadewch i ni fod yn Gymry a gadewch i ni fod yn ymarferol. Dyw e ddim yn ddigon, dim o bell ffordd. Dangosodd yr adroddiad 'Yr Unfed Awr ar Ddeg' yr angen am bum ysgol gynradd newydd. Pam felly nad yw'r Cyngor Sir yn cynnig dim ond un ysgol i ni?

Mae agor un ysgol pan fo angen pump yn sarhad arnom. Mae'n dangos yr angen am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg a fyddai'n gwneud yn siwr fod addysg Gymraeg ar gael i bawb sydd ei eisiau.Mae cynrychiolwyr o Gell Caerdydd o Gymdeithas yr Iaith wedi trafod y mater hwn gyda'r "Gweithgor Cymreig", joc o bwyllgor os bu un erioed. Ers hynny, mae'r Cyngor Sir wedi datgan yn swyddogol nad ydynt o blaid y syniad o Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. Nid oedd trafodaeth lawn a theg wedi cael ei chynnal gan y cyngor ar y mater hwn. Ar ol ymweld a sawl cynghorydd sydd ar y Pwyllgor Addysg, dwi'n hollol sicr nad yw mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor hwnnw erioed wedi clywed am y syniad o Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. Mae unrhyw benderfyniad sydd yn cael ei wneud heb y wybodaeth lawn braidd yn annheg os nad yn hollol ddi-ystyr ac yn ddiwerth.

Ers i'r Pwyllgor Addysg ddatgan eu barn nhw ar y mater, maen nhw wedi datgelu sawl cynllun am ddyfodol addysg Gymraeg yn y sir. Diddorol yw nodi nad ydynt yn dweud am ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith. Yr ydym yn dal i aros am ganlyniadau eu harolwg er bod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers yr arolwg hwnnw. Mae 'na ysgol newydd ar ei ffordd. Da iawn. Un yn lle pump. Mae Ysgol Gyfun Gymraeg Caerdydd am gael ei rhannu ar ddau safle yn lle agor ysgol arall ym Mro Morgannwg. Gwnaed y penderfyniad hwn yn wyneb gwrthwynebiad rhieni ac athrawon. Bydd addysg holl ddisgyblion yr ysgol yn dioddef oherwydd y penderfyniad hwn. A sut wnaeth yr Awdurdod Addysg ddatgelu ei benderfyniadau? Ie, y llythyrau uniaith Saesneg a oedd yn rhoi halen ar y briw. Dylai'r Awdurdod Addysg gryfhau, cadarnhau a chefnogi'r ysgolion Cymraeg gan gyfathrebu a gweinyddu yn y Gymraeg. Ni ddylent ddinistrio holl waith ac ymdrech yr ysgolion i greu awyrgylch ddwyieithog, gan ddefnyddio Saesneg. Ni byddai hynny'n digwydd pe bai Corff Datblygu Addysg Gymraeg i arolygu'r sefyllfa.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi gweithio yn ddiwyd i brofi'r angen am Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. Mae'r Gymdeithas hefyd wedi gweithio i brofi nad yw Cyd Bwyllgor Addysg Cymru yn gorff addas i ddatblygu addysg Gymraeg. Meddiannwyd sawl coleg technegol, coleg addysg uwch ac addysg bellach gan aelodau o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Dim ond 0.3% o gyrsiau yn y colegau hyn drwy Gymru gyfan sydd ar gael yn y Gymraeg Ar ôl protest yng Ngholeg Cyncoed, cafwyd datganiad gan y Prifathro "The provision of Welsh is limited....by external agencies..." byddai'r coleg yn ymateb i'r angen am gyrsiau yn y Gymraeg ".... were resources available." Cwestiwn o adnoddau yw e. Ond pe bai Cyd Bwyllgor Addysg Cymru yn cael mwy o arian i ddatblygu addysg Gymraeg, ni allent helpu Coleg Cyncoed, gan nad oes gan Gyd Bwyllgor Addysg Cymru gyfrifoldeb am golegau felly. Yn yr un modd, Does gan Gyd Bwyllgor Addysg Cymru ddim rheolaeth dros gyrsiau newydd yr M.S.C. Mae'r cyrsiau hyn yn uniaith Saesng, felly meddiannwyd swyddfeydd yr M.S.C. yng Nghaerdydd er mwyn tynnu sylw at diffygion a dangos yn glir nad oedd C.B.A.C. yn gallu gwneud y gwaith o ddatblygu addysg Gymraeg.

Mae'r pel-droed politicaidd y mae'r Swyddfa Gymreig a'r C.B.A.C. yn chwarae gydag addysg Gymraeg wedi arwain at weithredu uniongyrchol yn eu herbyn. Cynyddu fydd y pwysau arnyn nhw. Cynyddu hefyd fydd y pwysau ar Gyngor Sir De Morgannwg wrth i Gymdeithas yr Iaith ofyn iddynt ail drafod y mater o Gorff Datblygu Addysg Gymraeg. CYNHELIR RALI A GORYMDAITH O NEUADD DEWI SANT HYD AT BENCADLYS Y SIR AR DDYDD SADWRN 10FED MAI i wneud yn siwr eu bod yn cael y neges yn glir. Mae angen corff datblygu Addysg gymraeg - 'nawr.

Steffan Webb (Trefnydd y De C.Y.I.G.)

# Ista'r bonat

Ar Ddydd Sadwrn 19eg Ebrill, anafwyd Steffan Webb mewn digwyddiad wedi i Wyn Roberts A.S. annerch cyfarfod o fudiad Rhieni Dros Addysg Gymraeg ym Mhontypridd. Torrwyd coes a braich Mr. Webb, sy'n gyfrannwr cyson i'r Dinesydd, ac mae wedi bod yn derbyn llawdriniaeth yn ysbyty'r Waun. Dymunwn adferiad buan iddo.




Steffan Webb (ar y dde) cyn ei anafu

# HOYW LOYW

Ar y dydd y bu farw Peter Pears, cyfaill a chydymaith Benjamin Britten, fe ddaeth Cwmni Hwyl a Fflag a drama Sion Eirian 'Wastad ar y Tu Fas' i Arena'r Sherman. Gwyddai pawb fod y ddau gerddor wedi rhannu bywyd gyda'i gilydd am flynyddoedd ond, trwy drugaredd, ni wnaeth y naill na'r llall chwilio pob cyfle newyddiadurol gyhoeddus i ddatgan y berthynas. Ni chafwyd nac arddangosfa o hunan-gyfiawnhad nac ychwaith orymdaith o hunan dosturi. Yr hyn a wnaed yn llygad y cyhoedd oedd eu gwaith creadigol, gan adael popeth personol dan gaead tynn eu cylch cyfeillion a thu ol i lenni eu bywyd preifat.

Mor hawdd fyddai mynd dros ben llestri gyda phwnc o'r fath, yn enwedig, ond camp awdur y ddrama hynod hon oedd cadw rhaffau cynildeb yn dynn. O'm rhan i dyma un o uchelfannau'r ddrama Gymraeg gyfoes, gan iddi fynd i'r afael a phwnc dyrys dwys a'i drin yn gredadwy ac yn dawel gynhyrfus.Waeth i mi heb na chyfaddef ar ei ben mai fy ymateb greddfol i'r sefyllfa wrwgydiol yw ei hanwybyddu. Mae ei thras yn glasurol hir ond mae'n anodd gen i ei chael yn anrhydeddus. Eto i gyd, mae hynny'r un mor wir am y berthynas 'normal' - mae iddi hithau dras hir ac yn aml heb anrhydedd. Hwyrach mai'r hyn sydd wedi codi rhywfaint o ofn ynof i ar hyd y blynyddoedd, ac yn arbennig felly yn y blynyddoedd diweddar, yw'r ymgais orymdeithiol i ddweud wrth bawb mewn llawer dull a modd mai peth naturiol yw'r berthynas wrwgydiol neu fenwgydiol. Nid felly'r ddrama.

Ei phrif ogoniant oedd cynildeb yr ysgrifennu a hefyd dyfeisgarwch yr awdur wrth iddo ddirwyn ei edafedd - perthynas y ddau gariad, perthynas y par 'normal' ac yna'r bethynas rhwng y gwrwgydiwr a'r wladwriaeth Ffasgaidd fel y cafwyd y peth yn hanes y 'triongl pinc'. Wrth i'r edafedd hyn gael eu gweu drwy'i gilydd, cawsom gyfle i ddod wyneb yn wyneb a chariad tyner, cariad ysgafn a chasineb rhagfarnllyd. Wrth gwrs pan fo gwrthbwyntio fel hyn yn digwydd daw pegynnu i'r amlwg er mwyn creu tensiwn dramatig, felly 'roedd perthynas y ddeuddyn yn cael ei throi'n berthynas fwy dilys wrth gael ei tharo yn erbyn perthynas ffwr-a-hi cyfunrywiol y par yn y stiwdio ddarlledu ar y naill law a ffieidd-dra'r ormes Ffasgaidd ar y llall. Dyma ddechrau delfrydu cariad wrwgydiol, ond oherwydd dawn yr awdur, ni cherddwyd yn rhy bell ar hyd y llwybr beryglus hon. Wrth drafod ei gynhyrchiad o 'Otello' ar gyfer Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru, dywed Peter Stein, cyfarwyddwr llwyfan pwysig o Orllewin Berlin fod 'popeth yn bosib ar lwyfan'. Roedd hyn yn wir am waith cyfarwyddwr 'Wastad'.O gael sgript gynnil, cafwyd cyfarwyddo cynnil. Roedd awgrym o stafell wely'n ddigonol. Felly hefyd y stiwdio, stafell fyw, gwersyll carcharorion. Drwy ddefnydd celfydd ac awgrymog heb fawr ddim ffwdan, gwelsom bopeth yn glir, clywsom bopeth yn eglur a theimlasom bopeth i'r byw. Yn gyfalaw i'r cyfan oedd y dewis deheuig o gerddoriaeth. Wrth symud o olygfa i olygfa, felly hefyd y symudai'r cyfalawon. Drwy oleuo cyfyng a chynnil, ac actio medrus gan bawb llwyddwyd i'n dwyn ar ein pennau i fêr y sefyllfaoedd a oedd yn eu tro yn arteithiol, yn ddwys, yn ddigri-ddychanol ac yn chwaethus.

Roedd hi'n noson y gall Hwyl a Fflag ymfalchio'n fawr ynddi, ac mae'n siwr gen i y byddai Britten a Pears wedi dotio arni am ei chynnwys ac am ei chyflwyniad.

WYNNE LLOYD

# CHICAGO!

Pleser digymysg oedd cael y fraint o wylio perfformiad Cwmni Theatr Cenedlaethol yr Urdd o 'Chicago', drama gan Emyr Edwards a Huw Chiswell, yn y Sherman. Chicago'r 20au yw'r lleoliad yng nghyfnod y gwaharddiad ar alcohol pan oedd tor - cyfraith yn rhemp a phan oedd Giang y Gelatti, Giang O'Banion a'r enwog Al Capone yn rheoli'r strydoedd. Y thema yw hanes bywyd arch giangstaro Gymro, Murray (Llewelyn) Humphreys.

Roedd gofynion y cefndir o reidrwydd yn dethol y rhannau gorau yn y ddrama i'r bechgyn, a rhoesant bortreadau gwir gredadwy o'r cymeriadau brith, yn arbennig felly marc Roberts fel Al Capone. Rhaid oedd iddynt chwarae mwy nag un rhan mewn byr amser a llwyddo i lithro yn naturiol o un cymeriad i'r llall. Gwelwyd cyfuno crefft yr actio, y goleuo a'r sain yn yr aml farwolaethau di - syfyd ar y llwyfan! Ceid ambell olygfa - fel yr un yn y golchdy gyda Doli Gelatti (Sara Phillips) - lle'r oedd cyfle i'r merched ddangos eu dawn, a llwyddai ambell actores i dynnu llygad y gynulleidfa hyd yn oed yng nghanol y corws.

Annodd credu ar brydiau mai cwmni o bobl ifanc na chawsant brin wythnos o ymarfer gyda'i gilydd oedd yma gan mor ddisgybledig oedd y cynhyrchiad yn nwylo medrus Emyr Edwards. Nid disgyblaeth brennaidd, lem mohoni chwaith ond un a roddai le i afiaith a brwdfrydedd heintus y cwmni.

Gwych iawn hefyd oedd cerddoriaeth Huw Chiswell a'r grwop cerdd penigamp yn cael eu cyfarwyddo mor ddeheuig a di - lol gan Meinir James. Canwyd 'Dod Ymlaen' yn wefreiddiol gan aelod ieuengaf y cwmni; roedd aeddfedrwydd Daniel Evans, y bachgen ysgol o Rydfelen, yn syndod. Can arall a'm swynodd oedd 'Ffatri Freuddwydion'. Roedd llais y gantores yn asio'n berffaith a symudiadau'r ddawns a'r defnydd o'r golau strob i ddynwared ffilm du a gwyn ar y diwedd yn drawiadol.

Trueni mawr na allai mwy o Gymry Caerdydd a'r cylch fod wedi rhannu'r profiad. Gwerthwyd pob ticed ymlaen llaw a siomwyd nifer helaeth. Efallai y tro nesaf gellir llenwi prif theatr y Sherman. Byddai anfon camera i ddilyn hynt y gymdeithas glos fyrhoedlog o actorion ar eu taith drwy Gymru mor ddiddorol a gwylio'u perfformiadau, gallwn dybio! Nid ar chwarae bach y trefnir taith wythnos sy'n cynnwys naw perfformiad mewn wyth theatr dros Gymru gyfan.

Mae'n dyled yn fawr i'r cwmni ac i'w cefnogwyr.

ELAN GRIFFITH

# DA IAWN TRYSTAN AC ESYLLT

Anaml iawn y gwelir cynhyrchiad theatrig mor fentrus a chyffrous a'r perfformiad o chwedl Trystan ac Esyllt yng Nghanolfan Gymunedol Samaj yn Grangetown am wythnos ym Mis Ebrill. Roedd hon yn fenter gydweithredol mewn sawl ffordd. Ffrwyth cydweithrediad rhwng actorion proffesiynnol a phobl leol ydoedd o dan gynllun a gychwynnwyd gan gwmni bychan o'r enw 'Theatre Taliesin Wales'. Roedd ychydig actorion a dawnswyr wedi cynnal gweithdai yn rhad ac am ddim yng nghanolfan Samaj am saith wythnos, ac allan o'r rheini y tyfodd y cynhyrchiad. Cafwyd ymateb brwdfrydig iawn gan bobl leol, yn blant ac yn oedolion, yn enwedig gan y gymuned Asiaidd. Hyfryd oedd gweld pobl o wahanol hiliau yn cydweithio a'i gilydd fel hyn ac yn cyfuno eu traddodiadau diwylliannol mewn modd mor llwyddiannus. Dewiswyd chwedl Trystan ac Esyllt am ei bod yn debyg iawn i rai hen chwedlau Indiaidd, efallai oherwydd traddodiad cyffredin y Celtiaid a'r Indiaid yn y gymuned ieithyddol Indo - Ewropeaidd. Saesneg oedd prif iaith y perfformiad, gyda rhyw ychydig o'r iaith Hindi a rhai caneuon Cymraeg. ond dibynnwyd ar ddulliau di - eiriau i raddau helaeth, sef meimio a dawnsio. Defnyddiwyd dau adroddwr i egluro cymhlethdodau'r stori, gan adael yr actorion yn rhydd i ganolbwyntio ar ddulliau eraill o fynegiant. Perfformiwyd dawnsfeydd gwerin Cymreig ochr yn ochr a dawnsfeydd clasurol yr India, a'r rheini nid yn unig yn addurno'r ddrama, ond hefyd yn cyfleu uchafbwyntiau'r stori yn weledol. Cyfrannai'r gwisgoedd Indiaidd prydferth yn sylweddol at yr effaith gyfan.

Ond i mi yr elfen fwyaf trawiadol yn y cynhyrchiad oedd y gerddoriaeth. Roedd hon hefyd yn gyfuniad o ddulliau gorllewinol a dwyreiniol, gan ddefnyddio tabyrddau, sithar, dau soddgrwth, ffliwt a thelyn. Fe'i cyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur, ac mae'n drueni fod y gair 'swynol' wedi colli cymaint o'i rym oherwydd fe ges i fy swyno a'm tynnu i mewn i fyd y ddrama ganddi.

Mae'r cwmni'n haeddu clod mawr am ei lwyddiant yn cyfuno gwahanol ffurfiau celfyddyd mewn cyfanwaith ffrwythlon a chynhyrfus. Bydd un perfformiad arall yn Neuadd Dewi Sant 1af Mai. Gobeithio y caiff y sioe y gynulleidfa y mae'n ei haeddu yno, a gobeithio hefyd y gwelir rhagor o fentrau cydweithredol mewn dinasoedd amlhiliol fel Caerdydd.

DAFYDD JOHNSTON


# HWYL A FFLAG

yn cyflwyno

# LLEIDR DA

gan Gareth Miles

Canolfan y Chapter, Caerdydd

Nos Iau, Nos Wener, Nos SadwrnMai 22,23 a 24, am 7.30 pm.

Tocynnau - Caerdydd 396061

HWYL A FFLAG - Bangor 351140

# TORTH O FARA

Gyda'r cyfoeth o wybodaeth sydd ar gael yn y cyfryngau poblogaidd - teledu, radio, papurau newydd a chylchgronnau - am ddiet ac iechyd 'rydym yn dod yn fwy ymwybodol o'r hyn 'rydym yn ei fwyta. 'Rwyf eisoes wedi son yn y golofn hon am y cyfarwyddiadau a roir ynglyn a diet. Mae dau lyfryn da ar gael hefyd sy'n rhoi gwybodaeth ddibynadwy ar faeth a dewis iachus, mewn ffordd syml, hawdd ei deall - un gan Tesco a'r llall o'r enw 'Healthy Eating' o'r Ganolfan gwybodaeth am ffibr (Fibre Information Centre, 25 North Row, Llundain W1R 2BY).

Gyda'r symudiad at fwyta bwyd mwy cyfanrwyddol, ceir mwy o son am ychwanegion sy'n cael eu defnyddio mewn bwyd sydd wedi ei brosesu mewn rhyw ffordd gan wneuthurwyr. Gwelir mwy o ddefnyddwyr y dyddiau hyn yn darllen labeli bwyd mewn archfarchnadoedd a siopau ac yn nodi'r rhestr o'r cynhwysion neu'n son am bosibilrwydd bod rhywun yn y teulu ag alergedd i rai o'r ychwanegion. Rhestrir ychwanegion sydd mewn bwyd gyda rhifau E neu enwau llawn y sylwedd a'r rheswm dros ei gynnwys yn y bwyd, e.e. i rwystro'r bwyd rhag mynd yn frown neu'n ransid (anti - oxidant). Mae hyn cael ei reoli gan Reolau Labelu Bwyd y Farchnad Gyffredin. Ni fydd y rhan fwyaf o'r enwau neu'r rhifau E yn golygu llawer i'r person cyffredin. I gael mwy o wybodaeth am ychwanegion, gellir darllen llyfr Maurice Hanssen 'E for Additives.'

Mae'n rhaid cofio, er bod pryder ynglyn â'r nifer o ychwanegion a ddefnyddir mewn bwyd, bod angen defnyddio ychwanegion os ydym yn mynnu cael bwydydd cyfleus sy'n dderbyniol i'r llygad ac i daflod y genau.

Mae ychwanegion a ddefnyddir wedi cael eu harbrofi cyn y gellir eu defnyddio mewn bwyd ac fe ellir atal defnyddio ychwanegion os darganfyddir bod unrhyw reswm dros beidio â'i ychwanegu at fwyd. Efallai hefyd bod ychydig o wybodaeth yn beth peryg - os nad ydym yn deall y system rhifo E ni fyddwn yn sylweddoli bod rhai ychwanegion sydd â rhifau E yn rhai diniwed, er enghraifft E330 yw'r rhif a roir i fitamin C, ac ni allem gael marmaled heb E440(a) sef pectin.

Mae'n ddealladwy bod defnyddwyr yn cymryd sylw o'r hyn a roir yn eu bwyd, yn enwedig pan welir cymaint o rifau E ar restr cynhwysion rhai bwydydd cyfleus. Fel ateb i'r alwad am fwy o ofal dros ddefnyddio ychwanegion a dros ddefnyddio llai ohonynt mae rhai cwmniau sy'n cynhyrchu bwyd cyfleus yn ail feddwl eu polisiau am y nifer a'r mathau o ychwanegion a ychwanegir at eu cynnyrch. Erbyn hyn mae cwmniau Safeway, Tesco, Sainsbury's, Waitrose, Co - op, Marks & Spencer a siopau eraill yn cynnig bwydydd (label eu hunain yn aml iawn) sy'n cynnwys dim ychwanegion, neu lai nag o'r blaen. Mae rhai ychwanegion, fel lliwiau sinthetig, yn ddianghenraid, ac fe all rhai achosi problemau i bobl sensitif. Credir bod rhai plant yn arbennig yn sensitif i ychwanegion ac o ganlyniad yn dioddef o oractifedd. Mewn adroddiad diweddar yn y Lancet (rhifyn 1.540) cyhoeddwyd canlyniadau ymchwil a gariwyd allan yn Lluindain ar blant oedd yn dioddef o'r broblem hon. Er bod rhai o'r plant a brofwyd yn sensitif i ddau ychwanegyn - asid benzoig (E210) a tartazin (E102), nid oeddynt yn sensitif i'r rhain ar eu pen eu hun. Roedd eraill yn sensitif hefyd i fwydydd cyffredin fel llaeth buwch, siocled, orenau, wyau a gwenith.

Ym marn yr adroddiad mae angen llawer iawn mwy o ymchwil i'r broblem o oractifedd mewn plant i asesu gwir effaith diet ac ychwanegion yn unig.

Os ydych yn credu mewn cymryd tabledi fitaminau i'ch cadw yn iach, meddyliwch ddwywaith cyn dewis eich tabledi os ydych am osgoi ychwanegion. Mae llawer o'r tabledi hyn yn cynnwys cemegau am wahanol resymau, e.e. er mwyn gwneud y broses o'u gwneuthur yn rhatach ac yn haws, neu i roi blas neu liw i'r tabledi os ydych eisiau osgoi ychwanegion. Mae un cwmni, fodd bynnag, yn gwneud tabledi fitaminau (o'r enw Pure - Fil) nad ydynt yn cynnwys ychwanegion.




Mae Maurice Hanssen erbyn hyn wedi ysgrifennu ei ail lyfr sydd, yn fy marn i, yn fwy defnyddiol na'r cyntaf. Yn 'E for Additives - Supermarket Shopping Guide' (£1.99), mae'n rhestru 79 o ychwanegion nad oes eu hangen yn ôl Hanssen neu sy'n effeithio ar rai pobl. Yna ceir rhestr o fwydydd o wahanol siopau nad ydynt yn cynnwys yr ychwanegion hyn ac hefyd gwybodaeth am faint o halen a siwgr sydd ynddynt. Mae'r llyfr yn gwneud darllen diddorol i'r rhai sydd a diddordeb mewn gwybod mwy am y pwnc hwn.

# BRAS-ODLAU

gan EMYR LEWIS

Mae digwyddiadau dychrynllyd y mis diwethaf yn y Dwyrain Canol wedi gadael eu hol ar fywyd sawl unigolyn a chenedl ar draws y byd, a phwy a ŵyr erbyn i'r geiriau hyn gael eu darllen gan selogion y golofn hon pa erchyllterau pellach a fydd wedi dod i ran y ddynoliaeth dan law yr arweinyddion hynny a wyr beth sy' orau. 'Does dim rhyfedd fod rhywun yn teimlo fel pe bai'n cymryd rhan fel extra mewn rhyw ffilm sal, heb unrhyw ddylanwad ar y sgript na'r cynhyrchydd. Fel yn un o gomediau abswrd Mel Brookes, mae'r cast yn troi'n gynnulleidfa mud wrth i'r cyfrwng droi'n drech na hwy.

Ac wedi hynny o Wynllywelyniaeth, trown yn awr at gerdd rymus ac amserol a dderbyniwyd gan Iwan Llwyd yn gyfraniad i'r golofn y mis hwn:

B MOVIE

Gellid ei ddychanu:

hen gowboi'r sinema
ar y gorwel rhwng ffantasi a ffaith,
yn arwain posse'r Datguddiad
i buro a than a brwmstan
ffeuau'r terfysgwyr a'r treiswyr
a phebyll yr inffidel:

y duw gwyn
yn gwareiddio'r paith,
ac yn rhybuddio'r barbariaid
bod eu byd anwar ar ben.

Gellid ei ddychanu:

ond â'r cyrff yn dal i fygu
yn rwbel Tripoli,
a'r anghenfil eto'n effro.
yn sawru dydd ei orseddu
derfyddaf a dychan

ac erfyn
ar i rywun
ddiffodd y sgrin.

IWAN LLWYD

# Dyma goblyn o stori

Mae yna ddynion bychain ym mhob man, ond anaml iawn y gwelwn goblyn (oblyn i fod yn fanwl gywir (Gol.)) (Ol. i fod yn fanwl gywir (Obl.)), heblaw nawr am ffilmiau megis 'Dance with a Goblin', "Return of a Goblin", "The Goblin and I" neu "One Flew over the Goblin's Nest". Ond y dydd o'r blaen, tra oeddwn yn gweithio yn yr ardd, dyma fi'n digwydd clywed y llais gwichlyd main yma'n gweiddi arna'i, "Dyna ddigon - llofrudd." Yr oeddwn, yn naturiol, wedi cael tipyn bach o syndod a dweud y lleiaf, yn enwedig pan welais ddyn bach mewn trowsus melfared a chrys Ben Sherman coch a gwyn, "H'm" meddyliais "ni fu hwn yn siop Top Man yn ddiweddar. Hwtrach nad oes dillad yno ar gyfer tylwyth teg." Ta waeth, doedd e ddim yn ymddangos mewn hwyliau digon da i drafod ffasiwn, felly ni wnes unrhyw sylwadau ar ei wisg. Yn wir ches i fawr o gyfle gan iddo neidio i mewn i lith go hir am hawliau goblynnod mewn gerddi bach di - drefn yn Nhreganna. Roedd y llith yn diweddu rywbeth fel hyn: - "Ta beth, pwy oedd gyntaf?" (Cwestiwn dwys - rhywbeth i'w drafod dros beint rywbryd yng nghlwb Ifor Bach) "Dan ni wedi bod yma ers blynyddoedd maith, ers cyn i'r tipyn rheilffordd yma ddod â gwaith i'r ardal, ers cyn i ddyn ddarganfod gwrtaith artiffisial Fisons sy'n creu glaw asid sy'n gwneud cymaint o ddrwg i'n ffermydd cudd ni yma, ac ers cyn (anadlodd yn ddwys) ers cyn, syr, dyfodiad S4C sydd wedi dod â chymaint o 'Yuppies' mawr swnllyd fel chi i ladd ar ein treftadaeth a'n hetifeddiaeth ni yma yn yr ardd. Felly, syr, galwaf arnoch i barchu hawliau lleiafrifoedd ac i adael yr ardd fel ag y mae. Os a phryd byddwn ni eisiau newid, mi wnawn ni drefnu hynny!"

Ches i ddim cyfle i ofyn a oedd am drefnu etholiad democrataidd, ac a oedd gen i bleidlais, gan iddo ddiflannu mor sydyn ag yr ymddangosodd. Rwyf wedi son am y digwyddiad wrth fwy nag un person, ond rwyf eto i gwrdd ag unrhyw un sy'n credu'r stori, er mawr siom i mi. Oherwydd mewn rhyw ffordd fach ryfedd mi oedd gan y goblyn bwynt digon dilys, yn wir rwy'n ddigon parod i agor trafodaethau gydag arweinwyr ei gymuned i drafod ambell i newid y byddwn i'n hoffi ei wneud i'r ardd.

Dwi wedi ceisio ail - gysylltu gydag ef ond mae hi ychydig bach yn annodd oherwydd mae'r cymdogion yn dueddol o edrych arna'i'n ddigon rhyfedd tra bo fi'n straffaglu o gwmpas y chwyn yn sibrwd "Goblyn, Goblyn." 'Dyw'r ffaith fod y dyn drws nesaf heb fod yn dal iawn ddim yn help chwaith. 'Dwi ddim eisiau unrhyw gamddealltwriaeth, neu fe fydd rhaid i mi roi'r ysgol 'nol iddo. Felly fydd yn rhaid i mi aros i'r goblyn gysylltu efo mi.


'Dwyf i ddim yn disgwyl i neb gredu'r stori yma, gan ei bod hi'n annodd bod yn broffwyd yn eich gwlad eich hun - ys dywed yr hen air. Ond y tro nesaf y byddwch chi'n garddio, meddyliwch am hen goblyn bach Treganna, a galla'i fentro na fyddwch yn tynnu'r chwyn 'da'r un arddeliad! Peth arall sydd wedi fy nharo i am yr holl fusnes, peth od fel mae dynion bach bob amser mor gas.

JO SOP

HYSBYSEBWCH

YN Y DINESYDD

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 61



AR DRAWS:

1. Ymgryma Taliesin i ddangos ei fod yn rhoi ffrwyn ar ei deimladau. (6)
4. Y Prydydd Hir, ar ddechrau canrif arall, yn para'n ifanc. (6)
6. Cymdeithion creigiau Aberdaron. (6,5,1,3)
10. Cartref yn y goedwig. (6)
11. Mi ges i, o'r cynllun newydd, foddion i gael benthyg. (8)
12. Cynhyrchu can uned o gerrynt yw'r dasg, __________ tipyn o orchest! (8)
14. Un sy'n llwyddo ________ i beidio. (6)
15. "________ gweinidogion bywyd" (W.W.) (6)
18. "O f'enaid, gwel __________" (A.G.) (8)
21. Llwybr y briodasferch yn arwain at y Mynydd Bychan, ond nid i'w ben. (3-1-4)
22. Gwhanol ffyrdd o hel peth o'r gwlydd. (6)
24. "A swn y tonnog for", 'e fydd yn anesmwyth gydol oriau'r dydd. (1,4,4,3,3)
25. Maent yn gwneud un o'r pethau nad yw lili'r maes yn ei wneud. (6)
26. Gair anystywallt o ddafn a dwy bedol. (6)

I LAWR:

1. Y mae'n dwyn cyrch o'i roi ynghanol y lle hwn. (7)
2. Mae taran yn rholio ar dy ben. (5)
3. Mae'n ymrwymo i ddod o borthladd uned arall. (7)
5. Yr hyn a wnewch wrth drechu eich gwrthwynebwyr mewn dadl neu frwydr yw __ ______. (2,5)
6. Ar gam y mae'n gwyro oddeutu'r afon yn hirymarhous. (9)
7. Hawddamor hen-ffasiwn. (7)
8. Fe ddaw a Thwm ar dro i chwi yn gyflym. (6)
13. Cartref awenyddol clic o feirdd. (9)
16. Lle trychinebus. (7)
17. Mae'n bosib cael garanod i broffwydo. (7)
18. Anhwylder y frongoch, medd y gan. (6)
19. Cyflwr o anghydweld yn dod o gael y T.N. ynghau. (7)
20. Wyth Afallon Mon, o bosib. (5)
23. "Nid ______ niwed." (Salm) (5)

DATRYSIAD RHIF 60

AR DRAWS: 1. SIPIAIS; 5. CYNUTA; 9. LLANWRDA; 10. MERLOTA; 11. IAR; 12. TIPYN O DDERYN; 13. TWBYN; 14. BOLHEULAI; 16. ARCHWILIAD; 17. ALCAM; 19. TRAFNIDIAETH; 22. MATH; 23. YSBIWR; 24. BLYCHAID; 26. AREDIG; 27. DRAENEN.

I LAWR: 1. SYLLAIST; 2. PENTRE BACH LLANBER; 3. AWR; 4. STAMP; 5. CYMANWLAD; 6. NI RYDD; 7. TROI'R CLOC YMLAEN; 8. RHANNAI; 12. TANLLI; 14. BLINDEROG; 15. EFFAITH; 16. ACTWYR; 18. METHODYN; 20. NIWED; 21. ARBED; 25. YMA.

CYSTADLEUAETH RHIF 60
Daeth naw cynnig i law. Yr oedd gwallau bychain mewn dau ohonynt a'r saith arall yn gywir. Yr enw a ddaeth o'r het oedd M.E.D. 5, Rookwood Avenue, Llandaf. Fe gaiff hi'r tocyn llyfr Cymraeg y mis hwn. Enwau'r chwech arall oedd yn gywir oedd:- Tegwen Hughes Llanisien; Dewi Nantglyn Yr Eglwys Newydd; B.H. Cyncoed; Rhian Williams Lakeside; Gwenllian Gwyn Jones Yr Eglwys Newydd a J. Lloyd Ger - y - llyn.

CYSTADLEUAETH RHIF 61
Cynigir tocyn llyfr Cymraeg gwerth £5 y mis hwn eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair os gwelwch yn dda, i gyrraedd Ap Lewsyn, 13, Rannoch Drive, Cyncoed, erbyn Mai 17eg.

# BWTH RUTH



Cwta fis sydd tan Steddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen - dyna flwyddyn gron ers ein Seddfod ni yma yn y Ganolfan Chwaraeon. Mae yna reswm da dros nodi faint sydd tan yr Ŵyl - mae angen colli pwysau arna'i cyn mynd yno!! Petawn i'n mynd ar ddeiet Micro neu ddeiet Cambridge, mi ddylwn fod yn medru colli pwys y diwrnod - dyna dipyn o bwysau i'w golli ynte?

Fel yma y bum i'n meddwl ers rhai dyddiau bellach, ac yna yn rhoi fy nhrwyn mewn llyfr sydd wedi cael ei awgrymu i mi gan Dr. Eirwen Gwynn - llyfr sydd yn dwyn y teitl 'Raw Energy'* gan fam amerch, Leslie a Susannah Kenton.Mae'r gennod yn awgrymu y dylem drib bwyta 75% o'n bwyd yn amrwd - yn llysiau affrwythau(digon di - drafferth i ddynes fel fi) ac mae'r canlyniadau'n dderbyniol iawn - edrych yn well,teimlo'n well a mwy o egni i wynebu'r byd.

Mae Hywel Gwynfryn wedi cyfarfod â'r fam yn y bartneriaeth ac yn deud ei bod yn dipyn o ledi! - mae o'n siwr o fod yn iawn.

Beth ga' i ei fwyta i lenwi'r 25% arall o fy mwydlen meddwn i wrthyf fy hun, a dyna'r comisiwn cig a da byw yn dod i'r adwy dela welsoch chi erioed. Maen nhw wedi dewis 14 o fwtsieriaid yma yn y Brifddinas i werthu cig yn dwyn y label 'Superslim' - Cig Moch efo cyn lleied o frasder ag sy'n bosib - mi fyddwch yn ei nabod gan fod yna ruban siec glas a gwyn o gwmpas yr hambyrddau arbennig o gig yn ffenestri'r siopau bwtsiwr. Dyna i chi 'fanna o'r nefoedd'. 25% o'r cig moch blasus a iach (Mae Dr. Catford Curiad Calon Cymru yn deud fod cig coch yn O.K.) a 75% o lysiau a ffrwythau amrwd - dyna'r cwbwl sydd isio arna'i rwan ydi llonydd i ddilyn y ffordd nefolaidd yma o fyw - gawn ni weld!

* Raw Energy o stabal Century ac ar gael mewn sawl siop lyfrau yma yng Nghaerdydd am 2.25.

(Gol: I selogion y byd cadw'n heini, Leslie Kenton yw'r un un ag y sydd yn ymddangos ar raglen newydd HTV 'Ageless Ageing')



Y CORN SIMNE

Er i ni ddisgwyl am fis ychwanegol i gael ateb, ni ddaeth un cais i'r gystadleuaeth yn rhifyn Mis Mawrth yn dangos un o adeiladau enwog Caerdydd o ongl anghyfarwydd. Dyma fe eto i chi. Cefn Capel Heol y Crwys (wrth gwrs!).

# LLONGYFARCH

Llongyfarchiadau i Dr. Dafydd a Mrs. Siân Johnston, Mardy St., Grangetown ar enedigaeth eu plentyn cyntaf Lowri Siân yn ysbyty Dewi Sant yn oriau mân y bore ar ddydd Sul 13eg Ebrill

Croeso i'r byd i Selyf Nathaniel, trydydd mab Keith a Delyth Shapey, brawd i Jonathan a Iestyn ac ŵyr arall i Taid a Nain sef Ifan a Nan Prytherch, Cyncoed.

---

Llongyfarchiadau i Isobel Williams ar ei dyweddiad a Jim O'Rourke. Dymunwn yn dda iddynt.

# Y DINESYDD

Mewn ymateb i apel gan Lyfrgell y Ddinas am ôl-rifynnau o'r Dinesydd, mae'r rhifynnau canlynol yn eisiau o hyd:

Gorffennaf 1975
Rhagfyr 1977
Rhagfyr 1979
Tachwedd 1982
Mehefin 1983
Gorff./Awst 1983
Rhag/Ionawr 1983/4
Mai 1984

Dymunwn yn dda i gan Mari Emlyn a enillod gystadleuaeth Cân i Gymru ac a fydd yn cystadlu yn yr Wyl Ban-Geltaidd yn Cill Airne y mis nesaf. Fe genir y gan 'Be' fedra'i ddweud' gan Eirlys Parri.

Roedd yn braf clywed am briodas Deri, mab David a Heulwen Thomas, Ely Rd. Llandaf a Megan, merch Mr. a Mrs. W.H. Jones o Gwm Main, Sir Feirionnydd. Fe'u priodwyd yn y Bala ar Ddydd Sadwrn Mawrth 22ain, a bellach mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llanllechid. Braf hefyd yw gweld Heulwen yn holliach ac yn bwrw ati unwaith eto i ymroi ei hun i'w holl weithgareddau gyda'i brwdfrydedd a'i phrydlondeb arferol.

---

Newyddion da a ddaeth i fro'r Hendy, Pontardulais pan glywyd son am enedigaeth ŵyr i Eileen a Wib James. Ganwyd mab, Geraint, i Rhian eu merch, a'i gwr Peter Ellis o Gaerffili. Bu Eileen a Wib yn byw am flynyddoedd yng Nghaerdydd ac yn flaenllaw iawn ym mywyd Cymraeg y ddinas.

---

Llongyfarchiadau i Jill ac Alan Dainton ar enedigaeth eu mab, Ben, ym Mryste. Dyma aelod arall i deulu rhieni Jill, sef Tudor ac Eilonwy Williams o Landâf.

---

Llongyfarchiadau i ddau o Gymry Cymraeg y Ddinas ar gael eu gwneud yn Gwnsleriaid y Frenhines, sef Mr. Vernon Pugh a Mr. Winston Roddick.

---

Mae'r Dinesydd o hyd yn falch i gyhoeddi newyddion hapus fel sy'n y golofn hon, yn rhad ac am ddim. Os oes genedigaeth, priodas, neu destun llongyfarchion arall wedi digwydd, yna gyrrwch air, a llun hefyd at: Sian Emlyn, Coed Y Pry, Heol Llandennis, Cyncoed, Caerdydd.

---

YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU

Cyfieithiad Syr John Morris - Jones o Rubayat Omar Khayam - Ffon 753695

YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU YN EISIAU

# PENARTH A DINAS POWIS


Llongyfarchiadau i Rhian merch Rowland a Moyra Owen Llandochau ar ennill ei S.R.N. yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.

Braf yw clywed am weithgareddau'r ifanc, yn enwedig pan fo cymorth yn cael ei gynnig i'n sefydliadau mwyaf annwyl ni fel cenedl. Aeth plant a phobl ifanc capel Bethel Penarth ati i drefnu hel arian tuag at drwsio twll yn nenfwd a tho'r capel. Bu nifer ohonynt yn rhedeg ras nawdd o gwmpas Parc yr Athletic dan oruchwyliaeth dau o flaenoriaid Bethel sef y Dr. John Thomas - rhedwr o fri - a Gill Lloyd - athrawes yn yr ysgol Gymraeg leol.

Mae trefniadaeth mewn llaw am wibdaith flynyddol y Gymdeithas Gymraeg yn Ninas Powis. Cofiwch ofyn y manylion er mwyn sicrhau lle ar y bws ac yn y gwesty. Gobeithiwn ymweld a Chaerleon ar Wysg ar Fai 5ed. Hefyd, prysurwch i gysylltu a'r pwyllgor os oes diddordeb gennych yn y barbeciw haf sydd i'w gynnal yng nghanol mis Gorffennaf.

OWENA HOPWOOD


**Paentio a phapuro a phob agwedd o waith cynnal a chadw adeiladol, cysyllter â Ieuan Williams. (Ffôn 610957).**





Amgueddfa Genedlaethol Cymru
AMGUEDDFA WERIN CYMRU




**Sain Ffagan, Caerdydd**

BWRDD CROESO CYMRU
WALES TOURIST BOARD

**Gŵyl Dridiau Newydd yng Nghymru yn Amgueddfa Werin Cymru**
**Gwener, Mai 9, Sadwrn, Mai 10, Sul, Mai 11, 1986, 10.00-5.00 bob dydd**

**FFAIR WLEDIG GYMREIG GYDA CHREFFTAU TRADDODIADOL, CHWARAEON AC ADLONIANT**

- **Rhaglen lawn o ddigwyddiadau cyffrous**: trin cwrwgl, arddangos medr helgi, cadw gwenyn, a llawer mwy.
- **Amrywiaeth o grefftwaith**: gwneud les, nyddu a gwau, pobi, macsu cwrw, cowper, turnio coed, crefft y cyfrwywr.
- **Gweithdai**: Ffatri Wlan, Efail y Gof, Melin flawd, Ysgol o oes Fictoria.
- **Chwaraeon ac adloniant traddodiadol**: bwa a saeth, pysgota â phlu genwair
- **Trem ar y fferm**: Ceffylau gwedd, trafod ci defaid, coedwigaeth, tractorau a pheiriannau cynnar.
- **Dawnsio Gwerin**
- **Ceir golwg ar y Bywyd Gwledig Cymreig** mewn arddangosfeydd gan gymdeithasau a mudiadau Cenedlaethol.



Hyn oll ynghyd â Chastell Sain Ffagan yn adlewyrchu bywyd ysblennydd bonheddwr yn yr 17 ganrif, ffermdai a bythynnod wedi eu hailgyfodi a'u dodrefnu a'r casgliad o drysorau.

**Gŵyl na ddylech mo'i cholli**

*Oedolion £2.00, Pensiynwyr £1.50, Plant dan 16 £1.00. Parcio yn rhad ac am ddim.*

**Diwrnod i'r teulu**

**Gostyngiad ar gael ar gyfer partion a threfnwyr teithio** wrth wneud cais i'r Adran Farchnata, Caerdydd (0222) 569441